
# y dinesydd

Hydref 2003 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 284

## Y Bae Seisnig



Y Bae. Ardal sydd bellach mor enwog fel nad oes angen crybwyll ei enw llawn. Dyma ganolbwynt pob datblygiad o bwys yng Nghaerdydd a Chymru bellach, fel cartref llywodraeth y wlad a phalmant aur yr 21ain ganrif. Dyma lle mae'r pres a'r poseurs i gyd yn llifo.


Mae sawl un wedi cymharu'r datblygiadau hyn a'r hyn ddigwyddodd ym mhrifddinas Catalunya dros ddeng mlynedd yn ôl. Bryd hynny, chwalwyd hen ardaloedd di-raen a thlawd y dociau i godi marina newydd llawn fflatiau moethus a chaffes swanc Port Olímpic, fel rhan o Gemau Olympaidd Barcelona 1992. Bellach, mae Barca yn denu fflyd o ymwelwyr i un o ddinasoedd mwyaf ffasiynol y byd. Hanes digon tebyg sydd i Gaerdydd hefyd. Daeth y teirw dur i chwalu'r hen Tiger Bay, a throwyd y glannau lleidiog yn llyn dŵr croyw newydd. Erbyn heddiw, gwin y café bars nid glo sy'n ben yng nghysgod adeilad y Pierhead.

Trueni, felly, nad yw haul Môr y Canoldir yn tywynnu dros y Bae rownd y rîl. Bechod mai rhodfa o Toys R Us, drysfa o ffyrdd a chylchfannau Sgwâr Bute, a fflatiau bocs sgidia Lloyd George Avenue yw 'Ramblas' Caerdydd!

Siom hefyd nad yw'r Gymraeg hithau'n rhan mor amlwg â hynny o fwrlwm y Bae ar ei newydd wedd. Digon teg - fe welwch chi arwyddion dwyieithog i'ch tywys chi i Cei'r Forforwyn (a finna'n meddwl mai Copenhagen oedd cartref honno!) ac i'r Eglwys Norwyaidd ac ati. Craffwch chi dan yr wyneb, fodd bynnag, ac mae pethau'n dra gwahanol.



Century Wharf, Ocean's Reach, Sovereign Quay a Lacuna yw enwau'r fflatiau a'r pentai chwerthinllyd o ddrud sy'n codi fel madarch ar hyd y lle, a'r iaith fain sy'n bennaf ar arwyddion siopau, bariau a bwytai newydd y lanfa. Piciwch i Salt neu Terra Nova am bryd a pheint, ac fe welwch mai Saesneg yw'r bwydlenni a'r arwyddion (heblaw am y Gymraeg arferol ar ddrysau tai bach). Fuaswn i heb synnu gymaint os mai bragwyr o Loegr oedd y perchnogion, ond cwmni lleol Brains SA...?



Hyn er gwaetha'r broliant ar wefan y cwmni mai "Bragwr Cenedlaethol o Gymru" ydyw. All rhywun ddim peidio â theimlo fod Brains wedi colli cyfle euraidd i roi stamp dwyieithog ar eu busnesau newydd - a hynny mewn ardal sy'n frith o Gymry Cymraeg y Cynulliad gerllaw - heb sôn am ddangos yr iaith ar waith i ymwelwyr o bedwar ban.

Mae cwmni cynhenid arall, Cadwaladers, hefyd yn gibddall i'r Gymraeg. Lle mae bwydlenni ac arwyddion dwyieithog y caffi hufen iâ hwn o'r gogledd? Lle mae eu synnwyr busnes o ddefnyddio'r iaith fel arf marchnata? Lle mae cyngor ac anogaeth Bwrdd yr Iaith yng nghanol hyn i gyd?

Efallai - dim ond efallai - y gwellith pethau pan fydd un o brosiectau mwyaf uchelgeisiol yr ardal yn agor ei drysau am y tro cyntaf yn Nhachwedd 2004. Gyda'r gromen enfawr o bren, gwydr a llechi, mae Canolfan y Mileniwm yn sicr o ddenu'r llygaid a'r lluoedd. Yn anffodus, dyw'r arwyddion cyntaf ddim yn addawol iawn. Michael Crawford, un o sêr sioeau West End Llundain, fydd un o enwau mawr y noson agoriadol. Teg edrych tua Lloegr mae canolfan ddiwylliannol newydd Cymru, felly.



Dim ond gobeithio y bydd presenoldeb yr Urdd fel un o breswylwyr y ganolfan o fudd mawr i Gymreigio'r gromen a'r bae ynghyd â'r ffaith mai dyma gartref Eisteddfod yr Urdd yn 2005, a phob 4 blynedd wedi hynny.

Amser a ddengys...

## Côr Canna

Ydych chi'n gallu canu? Yn mwynhau cymdeithasu a chael hwyl? Wedi symud i Gaerdydd efallai ac yn arfer bod yn aelod o gôr ond heb ymuno ag un ar ôl dod yma? Yna, beth ymuno â Chôr Canna, criw o ferched hwyliog sy'n cyfarfod bob nos Lun yn festri Salem, Treganna am 7.45pm i ddysgu ac ymarfer darnau ar gyfer gwahanol gystadlaethau a chyngherddau.

Sefydlwyd y côr ym 1994 gan Delyth Medi, sy'n dal i arwain y côr hyd heddiw. Felly, mae'r flwyddyn nesaf yn mynd i fod yn un fawr - dathlu pen-blwydd y côr yn 10 oed! Mae'r aelodaeth wedi newid dros y blynyddoedd wrth i bobl fynd a dod i Gaerdydd ond mae rhai o'r (hen!) griw gwreiddiol yn dal i fod yno. Rydym ni'n canu darnau amrywiol iawn - o ganu ysgafn i gerdd dant, o alawon gwerin i ddarnau clasurol. Rydym yn cystadlu'n gyson yn yr Eisteddfod Genedlaethol, yr Ŵyl Gerdd Dant a Gŵyl Fawr Aberteifi ac yn cadw cyngherddau mewn gwahanol lefydd. Uchafbwyntiau'r côr yn ystod y blynyddoedd diwethaf oedd ennill cystadleuaeth y Côr Merched yn Eisteddfod Tyddewi 2002, ac yng Ngŵyl Fawr Aberteifi 2003 a dod yn agos at y brig yng nghategori'r Côr Merched yng nghystadleuaeth 'Côr Cymru 2003'.

Mae 2003-2004 yn mynd i fod yn flwyddyn brysur a phwysig i'r côr. Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n ymarfer at yr Ŵyl

parhad ar dudalen 9

# Y Dinesydd

**Hydref, Rhif 284.** **ISSN 1362-7546**

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd,
Ffôn: 029 2056 6046, ebost: lorraine@pioneerprinting.co.uk
a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygyddion y rhifyn hwn:**

**Dylan Wyn a Nest Gwilym**

**Golygydd y rhifyn nesaf:**

**Hywel Jones**

## NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Tachwedd 2003 erbyn 24 Hydref at:**
Hywel Jones, 4 Heol Heath Halt, Y Mynydd Bychan, Caerdydd CF23 5QF (Ffôn: 029-2021-1855; e-bost: hywel.jones4@ntlworld.com).

**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ Ffôn: 029-2062-8754;
e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk

## CALENDR

Anfonwch eitemau at Dr E. Wyn James. (Gweler uchod.)

## DERBYN A DOSBARTHU COPÏAU

Os oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch dosbarthu'r Dinesydd (er enghraifft, os ydych yn cael anhawster i gael gafael ar gopi neu os ydych yn barod i fod yn ddosbarthwr) neu os ydych am dderbyn *Y Dinesydd* drwy'r post, cysylltwch â CERI MORGAN, d/o Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14 2FG Ffôn: 07774-816209; e-bost: ceri33@btopenworld.com

## HYSBYSEBU

Mae 3,000 o gopïau o bob rhifyn o'r *Dinesydd* yn cael eu dosbarthu. Mae'n gyfrwng hwylus i gyrraedd cyfran uchel o Gymry Cymraeg y brifddinas.

Os ydych am hysbysebu yn *Y Dinesydd*, cysylltwch â MENNA GWYN, 41 Wingfield Rd, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd Ffôn: 029-2041-8270; e-bost: menna@gwyn41.freeserve.co.uk

## CYNORTHWYO'N OLYGYDDOL

Gwaith tîm o wirfoddolwyr yw cynhyrchu a dosbarthu'r *Dinesydd*. Rydym bob amser yn croesawu pobl newydd i ymuno â'r tîm! Os ydych yn barod i gynorthwyo mewn unrhyw fodd - trwy gasglu newyddion, teipio erthyglau, golygu rhifyn, etc. - yna cysylltwch â Chadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*. (Gweler uchod.)

## CYFRANNU'N ARIANNOL

Mae parhad *Y Dinesydd* yn dibynnu ar roddion gan unigolion a chymdeithasau. Mae ein Trysorydd, CERI MORGAN, yn croesawu pob rhodd, bach a mawr. Anfonwch ato dan ofal Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14 2FG Ffôn: 07774-816209; e-bost: ceri33@btopenworld.com

**CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN**

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .

**0845 6076070**


**Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm**
cyfradd galwadau lleol

www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com

Dim ond saith cynnig ddaeth i law y mis yma, a thri yn unig o rheini'n gywir. Danfonir y tocyn llyfr at James Wiegold, 131 Heol y Deri, Rhiwbina. Cafwyd y ddau ateb cywir arall gan Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd a Huana Simpson, Llansanwyr.

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 43** **Hydref 2003**



**Ar Draws**

1. Mae'n anrhydedd i'r adar mawr du ddechrau teithio (6)
4. A yw dysg yn cynhyrfu? (6)
7. Beth yw'r berthynas â llystad y ci gwyllt? (9)
9. 'Mi wn eu bod yn ____'n ofer arnom,
   Hen bethau anghofiedig dynol ryw. (Waldo) (4)
10. 'Na thorred ____, O dyner nos,
    Ar ysgafn hun Awrora dlos.' (Alafon) (4)
11. Daw braw o Fôn friw (3)
12. Rhyfedd i Diana fach gael ei thro - bron! (6)
14. Er yn hanner ysgwyd mewn sach cawn noddfa (6)
16. Aelod seneddol o sir arall mewn rhan o India (6)
18. Negesydd y nen stormus mewn brwydr (6)
20. Cael cern o dywysog newog (3)
21. '____ dy fod yn eiddo imi
    Mewn llythrennau eglur clir.' (W.W.) (4)
23. Mae un haf yn lle i ddawnsio (4)
24. Boed Carys yn cael ei thrawsffurfio'n aderyn (4,1,4)
25. Mae llun tei wedi rhwygo yr ochr draw (6)
26. Mae dymchwel lle llan yn peri wylo (6)

**I Lawr**

1. Deg asb wyllt yn creu cawell (6)
2. 'Dengys hwn y ffordd i farw,
   Dengys hwn y ffordd __ ____ (T.O.) (1,3)
3. 'Canys lle y mae eich ____, yno y bydd eich
   calon hefyd' (Mathew) (6)
4. Cael cas tyn o cwmpas polyn (6)
5. Eithr efe a'i dibrisiodd ei hun, gan gymryd
   arno agwedd ____ (Philipiaid) (4)
6. Edliw i Daniel bach y marc (6)
7. Disglair i rywun yw difaterwch (9)
8. Da gan Taid wneud cyhoeddiad (9)
13. Rhodd ddoeth yn codi o hanes uthr (3)
15. 'Dacw'r tŷ lle'm ganed. Ond wele, rhwng llawr a ne',
    Mae lleisiau a drychiolaethau ar hyd __ ___ (THPW) (1,2)
16. A yw nifer dy flynyddoedd ond aer poeth? (6)
17. Iago ac Esau heb ddechrau dynesu (6)
18. Curwr asgellog can collen gam (6)
19. 'Draw yng nghil y derlwyn
    Yn yr iasol chwa
    Crynai ffurf wywedig
    ____ ola'r ha'. (H.E.D.) (6)
22. Gwn y daw dirmyg llu ar yn ail (4)
23. Crefft can ellyll yn Lloegr (4)

**Croesair Rhif 41**

**Ar draws:** 1. Dienaid; 5. Cosfa; 8. Dôr; 9. Afresymol; 10. Afiach; 12. Yn ofnus; 13. Clochdy; 15. Digelo; 18. Hinsoddi; 19. Parod; 20. Cyfarchion; 21. Cae; 22. Dyled; 23. Gwyddfid. **I lawr:** 1.Didranc; 2. Egr; 3. Alarch; 4. Derbyn; 5. Cysgodi; 6. Simon Pedr; 7. Achles; 11. I bob nefol; 14. Drofryd; 16. Cydweld; 17. Rhiniog; 18. Hoced; 19. Pandy; 21. Cof.

**Cystadleuaeth Hydref** Anfonwch eich atebion i: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN. Atebion i gyrraedd erbyn 24 Hydref 2003.

## Llongyfarchiadau

- i Eleri a Robert Melhuish, Pentwyn, ar enedigaeth mab, Siôn Robert, ar 4 Mehefin yn Ysbyty'r Brifysgol. Ŵyr arall i Enid a Gwynfor Jones, Cyncoed.
- i Einir Wyn Thomas ac Anthony Mark Kirkwood ar eu priodas ar 5 Gorffennaf. Maent wedi ymgartrefu ym Mhenarth.
- i Sian a Dean Williams, Meisgyn, Pont-y-clun, ar enedigaeth eu merch fach – Hanna Elizabeth – ar 14 Medi yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Wyres i Karl a Sheila Williams, Tonyrefail, ac i Brian a Merhis Davies, Radur, Caerdydd.
- i Gôr Cochion Caerdydd ar ddathlu ei ben-blwydd yn ugain oed eleni;
- i Iwan Humphreys, Llandaf ar ddathlu ei ben-blwydd yn drigain oed ar 12 Medi.
- i Llwyd Owen, mab Arwel a Non, Dan y Coed Close, Cyncoed, ar ei ddyweddïad â Lisa Hirst, Cemaes, Ynys Môn.

## Cydymdeimlo â:

- theulu'r diweddar Mary Davies, Bryncyn, Pentwyn, Caerdydd a fu farw yn Ysbyty'r Brifysgol ar 18 Medi. Bu'r angladd yn hollol breifat. Bu'n gweithio yn y Cynulliad.

## Diolch:

Carem ni, Alcwyn, Rhoswen a Trystan ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad yn ystod y misoedd diwethaf, wedi colli ein hannwyl Prys Gweirydd Deiniol. Bu pob cymwynas, y geiriau tyner ar gerdyn ac mewn llythyr, y blodau a'r llu ymweliadau yn fodd i'n cynnal drwy'r dyddiau blin. Bu gofal y teulu, cyfeillion a'r gymuned fel clogyn amdanom, a chofiadwy oedd gweld cynifer o ffrindiau Prys a ninnau yn yr angladd, a arweiniwyd gan ein gweinidog, y Parchedig Casi M Jones. Cydnabyddwn gyda diolch bob rhodd hael i "Ty Hafan" er cof am Prys.

## Cofio Prys Gweirydd Deiniol

Roedd y Capel a'r festri'n llawn yn y Tabernacl a'r capel yn amlosgfa Thornhill yn orlawn i'r gwasanaethau i ddiolch am fywyd Prys Gweirydd Deiniol. Roedd maint y dyrfa a ddaeth ynghyd yn tystio i'r argraff arbennig yr oedd y dyn ifanc yma wedi ei wneud ar bobl yn ystod ei fywyd llawer rhy fyr, ac yn arwydd o'r golled enbyd a deimlir nid yn unig gan ei deulu ond gan gynifer o ffrindiau a chysylltiadau.

Roedd rhai yn ei gofio yn dechrau yn Ysgol Sant Ffransis ac wedyn yn Ysgol Sant Barruc, eraill yn ei gofio yn un o blant Ysgol Sul yma yn y Tabernacl. Roedd cyd-ddisgyblion yno oedd wedi cyfoesi gyda Prys yn Ysgol Glantaf a chyd-fyfyriwr cerdd o'i gyfnod yn y Brifysgol yng Nghaerdydd. Roedd llawer yno o deulu'r côr neu gwmni'r gerddorfa a'r rhai oedd wedi seiadu gyda fe dros beint yng Nghlwb Ifor Bach. Roedd gan bawb felly eu hatgofion i'w trysori.

Fedr neb feddwl am Prys heb feddwl am y gerddoriaeth oedd yn gymaint rhan o'i fywyd - y canu lleisiol a chanu'r ffidil a'r fiola. Mae ei gyn-athrawon yn sôn amdano fel 'cerddor o'i gorun i'w sawdl' yn un 'y gallech ddibynnu arno mewn gwasanaeth, cyngerdd neu eisteddfod' yn un 'fedrai lwyfannu yn gelfydd gan lwyddo i gyfathrebu gyda'i gynulleidfa..' O'i ddyddiau ysgol gynradd fe gofir yn arbennig am ddeuawd swynol gyda'i ffrind Eryl Thomas a gyffyrddodd â phawb. Cofir hefyd am berfformiadau mewn sioeau cerdd a chyngherddau yn ystod ei flynyddoedd yng Nglantaf a'r coleg. Roedd ei bersonoliaeth yn tywynnu drwy'r canu, gallai swyno ei gynulleidfa ac roedd ganddo ryw ddawn arbennig wrth ddehongli darn o gerddoriaeth i gyfleu naws ysgafn neu ddwys yn ôl y galw. Cafodd Prys hefyd lawer o bleser o ganu'r ffidil ac yna ymhellach ymlaen y fiola. Yn ogystal â'r gerddoriaeth a roddai gymaint o bleser i Prys, roedd y cerddorfeydd a'r bandiau a berthynai iddynt bron fel rhyw ail deuluoedd iddo - dyma lle y gwnaeth lawer o ffrindiau da a arhosodd yn rhan bwysig o'i fywyd. Mae un gyngerdd yn aros yn y cof uwchlaw'r lleill - Prys yn canu fel unawdydd yn Eglwys Gadeiriol Llandaf a llawer o'i ffrindiau yn chwarae yn y gerddorfa. I'r rhai a fu yno roedd hi'n noson wefreiddiol sydd, diolch byth, wedi ei rhoi ar gof a chadw ar gryno-ddisg i ni barhau i'w mwynhau.

Does neb yn medru cofio am Prys heb gofio am ei wên ac am ei ddireidi. Byddai Prys ei hun yn protestio am ei ddarlunio fel plentyn a dyn ifanc 'perffaith'. Byddai darlun 'naff' felly (i ddefnyddio un o hoff eiriau Prys) ddim yn gwneud cyfiawnder ag ef. Mae ei athrawon yn cofio'n annwyl amdano yn yr ysgol fel tipyn o gymeriad ac yn un a fyddai'n osgoi gwaith pe bai modd! (Doedd e byth mewn trwbwl mawr ond roedd yn llawer iawn gwell ganddo dynnu coes nag ysgrifennu traethawd!) Fe'i disgrifiwyd ef gan un fel 'Cymro bonheddig direidus a ffeind, yn fotwm bach o arian byw.'

Roedd Prys yn berson anturus hefyd - bob amser yn fodlon trio pethau gwahanol ac wrth ei fodd yn cwrdd â phobl newydd. Roedd yn hoff o deithio ym Mhrydain a thros y môr, yn aml yng nghwmni ei ffrind Meilyr, gan ychwanegu at deulu helaeth ei ffrindiau a'i gydnabod. Mae llun ffantastig ohono newydd ddychwelyd o'r Alban yn gwisgo ei gilt newydd - cilt a gostiodd tipyn mwy na'r tocyn awyr rad a gafodd i'r Alban i'w phrynu!

Mae llawer sydd wedi nabod Prys yn ei chael hi'n anodd iawn i gysoni'r darlun o Prys yn dioddef iselder gyda'r Prys direidus parod ei wên maen nhw'n ei gofio. Rhaid cofio mai nid agwedd ar gymeriad yw iselder ond salwch - afiechyd creulon sy'n gallu taro y bobl fwyaf dawnus a chreadigol a gwneud i bethau ymddangos yn hollol ddu. Brwydr yw hi wedyn yn yr un modd ag y mae'r corff yn brwydro salwch neu haint. Nid gwenu er mwyn cuddio bywyd trist wnai Prys ond yn hytrach roedd yn byw bywyd llawn ac yn aml yn hapus - dim ond fod caddug du o iselder ar brydiau yn cadw allan y golau ac yn ei ddallu rhag gweld y ffordd ymlaen. Dydyn ni ddim yn deall pam fod pethau fel yma yn gorfod digwydd a byddai pawb ohonom yn hiraethu am i bethau fod yn wahanol. Mae hawl gennym weiddi ar Dduw, pam na allai pethau fod yn wahanol? Does na ddim atebion slic, ond sylweddolwn mai dim ond Duw sy'n ddigon mawr i'n cario ni ar adeg fel hyn a does na ddim profiad sy'n rhy dywyll i Dduw fod yn bresennol ynddo.

Daeth y Gwasanaeth yn y capel i ben drwy wrando ar dâp o gân, dirdynnol o hardd, yn cael ei chanu gan Prys ei hun. Gosodiad oedd hi o alaw 'negro spiritual'. Mae caneuon o'r fath yn perthyn i bobl sy'n cael bywyd yn frwydr ond eto'n bobl sy'n cael eu cario ymlaen gyda'r gobaith sicr a diogel fod na lawenydd a iachâd, aduniad gydag anwyliaid a llawer o ganu da y tu hwnt i frwydrau'r byd yma. Dydyn ni ddim yn gwybod manylion am y nefoedd ond rydym yn ymddiried Prys i ofal ein Tad Nefol mewn lle, lle mae dagrau'n cael eu sychu ymaith, lle mae na afon ddofn o heddwch a lle mae iachâd.

**Casi M Jones**

**Prys**

Mae afiaith mis Mehefin - yn llon iawn,
Yn llawn hwyl a chwerthin;
Ond ynghudd yn ei ruddin
Heb bla oer afiechyd blin.

Rhwydodd â'i wên ddireidus - mor ddi-lol,
Mor ddoniol, mor ddawnus;
Trysor oes fer a erys
Yn em prin. Diolch am Prys.

**Euryn Ogwen Williams**

# Newyddion o'r Eglwysi

## Salem Treganna

### Dathlu 90

Hoffem fel eglwys longyfarch Edwin a Gwyneth Lloyd Jones wrth i'r ddau ddathlu cyrraedd 90 oed eleni. Rydym mor falch drostynt ac yn meddwl y byd ohonynt.

### Bedyddiadau

Cawsom dystio i fedydd y canlynol yn ddiweddar:
Beca, merch Lisa a Jeff Jones
Elin Angharad, merch Alun a Rebecca Boore
Marged Hefin, merch Hefin a Nia Griffiths
Greta Angharad, merch Matthew a Nona Gruffudd-Evans
Rhys Tanat, mab Rhodri a Kate Morgan
Dymunwn yn dda iddynt a'u teuluoedd.

### Genedigaethau

Hoffem longyfarch yn canlynol:
Dylan a Mari, ar enedigaeth Cate
Iwan a Iola ar enedigaeth Caeo Rhys
Aled a Carys ar enedigaeth Arfon Rhys
Osian a Catrin ar enedigaeth Gwion

### Y Gadwyn (cymdeithas yr Eglwys)

Dechreuodd y tymor newydd ag ymweliad i weld 'Calendar Girls' yn y sinema. Roedd y ffilm yn werth ei gweld, ac roedd pawb wedi gwirioni!

### Clwb Llyfrau

Rydym wedi cychwyn ein Clwb Llyfrau, ac yn bwriadu trafod nofel bob mis. Nofel y mis diwethaf oedd 'Pan Oeddwn Fachgen' gan Mihangel Morgan.

## BETHEL, MAES Y DERI

Cafwyd cynulleidfa dda yn y Cwrdd Diolchgarwch dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig T. Evan Morgan. Roedd nifer sylweddol o'r plant a'r oedolion wedi dod â nwyddau i'w hanfon i'r anghenus yn Rwmania. Ac ar ôl yr oedfa mi gafwyd paned yn y gegin sydd newydd gael ei hadnewyddu yn neuadd y capel.

Mae'r cyfarfodydd ar foreau Mawrth wedi ail-ddechrau. Gwaith rhai o'n hemynwyr yw y pwnc trafod y tymor hwn.

Ac rydym yn dymuno pob llwyddiant i'r dair sydd newydd ddechrau ar eu cyrsiau yn y coleg: Siân Elen Williams yng Nghaeredin, a Nerys Jones a Carys Jones yng Nghaerdydd.

## EBENESER

Ddydd Sadwrn, Medi 20, aeth llond bws o blant a rhieni yr Ysgol Sul ar ein gwibdaith flynyddol, y tro hwn i barc Oakwood. Cafwyd diwrnod i'w gofio yno ac ambell un yn dychwelyd yn wlypach nag yr aeth.

Llongyfarchiadau mawr i Tom Evans am iddo dderbyn gradd MA er anrhydedd gan Brifysgol Cymru, Caerdydd, am ei gyfraniad i addysg Gymraeg.
Llongyfarchiadau hefyd i Elwyn Moseley ar iddo dderbyn y CBE am ei waith fel Ombwdsmon Llywodraeth Leol yng Nghymru.

Ddydd Sul, Medi 14, cawsom dystio i fedydd Gruffydd, mab Alison ac Eilir Jones a brawd bach Esyllt a Branwen. Fe'i bedyddiwyd gan ei datcu, y Parchg. John Gwilym Jones, Bangor.

Mae clwb newydd - Hwyl Hwyr - wedi cychwyn ar gyfer plant blynyddoedd 1 i 6. Fe'i cynhelir bob nos Iau rhwng 5 a 6 o'r gloch yn Ysgol Plasmawr.

## Eglwys Dewi Sant

Mae'n siwr i lawer ohonoch fwynhau gwrando ar aelodau o Aelwyd CF1, Caerdydd, yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod. Yr oedd eu cyflwyniad o gân o'r sioeau cerdd yn arbennig o drawiadol. Ers rhai misoedd, mae Aelwyd CF1 yn cyfarfod i ymarfer yn Eglwys Dewi Sant. Yn ddiweddar, cynhaliwyd noson o adloniant ganddynt yn yr eglwys a oedd yn gyfle gwych inni werthfawrogi eu doniau amrywiol. Aeth rhan o elw'r noson tuag at gronfa ad-drefnu adeilad yr eglwys.

Yn dilyn arolwg pum mlynedd Eglwys Dewi Sant ar gyfer yr Esgobaeth, ac oherwydd gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch 1998 a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, yr ydym wedi dechrau trafodaethau ar gyfer ad-drefnu'r adeilad. Rhoddwyd cyfle i'r holl aelodau fynegi eu barn ar ba fath o newidiadau yr hoffent eu gweld yn yr adeilad, ac mae'r syniadau hyn, yn ogystal â thrafodaethau yn y Cyngor Plwyf Eglwysig, wedi eu cyflwyno i'n pensaer, Alwyn Jones. Y bwriad yw cael adeilad sy'n adlewyrchu ein gweinidogaeth a'n cenhadaeth Gristnogol Gymraeg yng nghanol prifddinas Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Gobeithir cwblhau'r gwaith ad-drefnu erbyn dathliadau hanner can mlynedd Eglwys Dewi Sant yn ei safle bresennol yn 2006.

Yn ogystal â pharatoi côr yr eglwys o Sul i Sul a chanu'r organ yn ein gwasanaethau, mae ein cyfarwyddwr cerdd, David Leggett, yn ysgrifennu gosodiadau cerddorol o'r salmau ar gyfer yr offeren ar gân. Mae hwn yn gyfraniad pwysig i'n mawl yn Eglwys Dewi Sant ac yn gyfle inni gydlawenhau wrth ganu geiriau'r Salmydd.

## Minny Street

Wedi tawelwch gwyliau'r haf ailgydiwyd yn amrywiol gyfarfodydd yr eglwys ym mis Medi. Yn ychwanegol at oedfaon y Sul mae cyfarfodydd misol "Celf ac ati" eisoes wedi ailgychwyn ac felly hefyd y Dosbarth Beiblaidd a'r Cyfarfodydd Ieuenctid. Yn sgil llwyddiant y grŵp sydd wedi bod yn dilyn Cwrs Emaus dros y flwyddyn ddiwethaf, gobeithir sefydlu ail grwp yn ystod y misoedd nesaf, ynghyd â grŵp Emaus i ieuenctid 16 oed ac i fyny. Ar ôl ysbaid o nifer o flynyddoedd mae'r Ysgol Sul i Oedolion hefyd wedi ei hail sefydlu. Bydd y Gymdeithas yn ail gydio yn ei gweithgareddau ym mis Hydref. Ein bwriad yw cynnal Oedfa Groesawu Myfyrwyr ar ddechrau mis Hydref.

Hyfrydwch oedd cael tystio i fedydd Owain Tudur (mab Richard ac Eirian Jones, Penylan) yn Oedfa Foreol gyntaf mis Medi. Cydymdeimlwn â theulu a chyfeillion Mrs Mair Taylor. Cofiwn yn ddiolchgar am ei ffyddlondeb a'i chyfraniad i'r eglwys.

Croeso cynnes iawn i chwi i ymuno â ni yn ein cyfarfodydd a'n gweithgareddau - ac os am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Gweinidog, Owain Llyr Evans (2019 3828) neu'r Ysgrifennydd Cyffredinol, Bethan Jones (2022 3657).

## Yr Eglwys Efengylaidd

Bu'r Eglwys ar drip ddydd Sadwrn cynta'r mis ac, yn wahanol i'r arfer, nid oedd yn glawio. Er mawr bleser i'r rhan fwyaf, cawsom ddiwrnod o chwaraeon ar y traeth ym Mhenbre heb orfod mynd i siopau Abertawe!

Nos Fawrth, Medi 16, cafwyd noson fuddiol wrth i Carwyn Arthur ymweld â'r Eglwys i sôn am ei alwad i waith Cristnogol ym Mhatagonia. Mae'n briod ag Alicia, merch o'r Wladfa, a dymunwn yn dda i'r ddau wrth iddynt ddychwelyd yno fis Hydref.

Mae'r clybiau wedi ailddechrau ar dymor arall o weithgareddau. Bydd Clwb yr Hapus Awr (ar gyfer plant ysgol gynradd) yn cwrdd am 6.00 bob nos Wener, a'r clwb ar gyfer y plant hyn yn dilyn am saith o'r gloch.

## Eglwys y Crwys

Llithrodd yr haf i drobwll o atgofion eleni. Bydd, mi fydd ailadrodd am flynyddoedd i ddod, am 'haf hirfelyn tesog' 2003. Gall Eglwys y Crwys edrych yn ôl gyda diolch am oedfaon bendithiol a rannwyd gydag Eglwys Minny Street. Dros yr un cyfnod, cafwyd taith gerdded gofiadwy rhwng Esgair Ffrwd a Thregaron, llwybr o ryw 6 milltir a gerddwyd yn gyson gan borthmyn Banc y Ddafad Ddu a'u tebyg. Cafwyd hefyd gyfle i wella ar y cyfleusterau oddi mewn ac oddi allan i'r capel. Adnewyddwyd y rhwydwaith drydan a chanllawiau'r allanfa dân, ynghyd â rhoi wyneb newydd ar y maes parcio. Do, bu'n haf toreithiog ar lawer ystyr.

Erbyn dechrau Medi, roedd hi'n amser i gymdeithasau'r Eglwys gychwyn ar eu gweithgareddau tymhorol. Ganol y mis, aeth Grŵp y Merched ar ymweliad â'r Ganolfan Grefftau yn y Bae, tra mwynhaodd y Gymdeithas Ddiwylliannol noson o ddramâu byrion a berfformiwyd gan Gwmni Drama Bro Eisteddfod Casnewydd. 'Parau cymysg' oedd teitl y cynhyrchiad yma ac fe'i perfformiwyd hefyd ar ddiwedd y mis i aelodau Capel Bethel, Penarth.

Fore Sul, 21 Medi, bedyddiwyd CatrinWyn, merch fach Linda ag Emyr Roberts a chwaer i Elen a Hannah, gan ein Gweinidog. Arweiniwyd gweddill y gwasanaeth gan ieuenctid yr Eglwys a chafodd y gynulleidfa gyfle i wrando ar Rhiannon Evans yn sôn am ei chyfnod o 3 mis fel athrawes mewn ysgol gynradd yn Kenya. Cafwyd oedfa gyfoethog a saif yn y cof.

Yn ystod mis Medi hefyd aeth nifer o wragedd yr eglwys i hen gartref ysbrydol Howell Harris yn Nhrefeca. Dan arweiniad Mrs Menna Green, cafwyd encil o fyfyrdod gwerthfawr ar y thema o weddi, gwrando a gweithio.

## Y Gwasanaeth Cymraeg yn Llysfaen

Sefydlwyd Eglwys y Bedyddwyr Llysfaen yn eglwys lawn ar ei phen ei hun ym mis Mai 1831 gydag 116 o aelodau. Roedd yr ardal yn Gymreigaidd iawn ar y pryd ac eglwys Gymraeg a sefydlwyd yno wrth gwrs. Sefydlwyd y gynulleidfa wreiddiol gan Harri Rees, fferm Tai Mawr ym 1782. Ffermwyr a gweision ffermydd oedd y mwyafrif o'r aelodau yn y cyfnod hwnnw ond dros y blynyddoedd, fe Seisinigiwyd yr ardal.

Roedd un o ddisgynyddion Harri Rees, sef Eirwen Llewelyn, yn dal i addoli yn y capel ddeng mlynedd ar hugain yn ôl. Roedd hi'n awyddus iawn i ail sefydlu'r gwasanaeth Cymraeg yn y capel a gyda chymorth parod Stephen Richards a Kynric Lewis aed ati i gynnal gwasanaeth Cymraeg unwaith eto yn yr hen gapel bach hanesyddol.

Bu sefydlu'r gwasanaeth yn llwyddiant mawr ac ar ôl deng mlynedd ar hugain mae'n dal i ffynnu er ein bod bellach am amryw resymau wedi gorfod symud i Eglwys y Plwyf yn Llysfaen. Byddwn yn cwrdd am 4 o'r gloch yn yr ail Sul bob mis. Croeso mawr i chi ymuno â ni a chael paned, teisen a chlonc ar ôl y gwasanaeth.

Ar 25 Medi gwerthwyd y capel bach i'w droi yn dy annedd. Trist yw meddwl bod "datblygiadau'r" unfed ganrif ar hugain wedi bod yn gyfrifol am hyn.

Diolch i 14 o weinidogion a lleygwyr a fu'n arwain ein gwasanaethau dros y blynyddoedd. Braf yw gallu dweud "Dan ni yma o hyd"!

**John Albert Evans**


Mae

Cylch Meithrin Nant Lleucu

(Penylan)

yn chwilio am

**ARWEINYDD MEITHRIN**

ar gyfer ein cylch hapus
â chefnogaeth gref gan rhieni.

I ddechrau'n syth.

Siaradwr Cymraeg neu ddysgwr.

2 flynedd o brofiad mewn cylch meithrin
neu amgylchfyd tebyg.

Cymhwyster addas (NVQ lefel 3 neu
parodrwydd i ddysgu i'r lefel hyn)

ORIAU: 9.00-12.30 Llun i Gwener
A un pnawn yr wythnos (Ti a Fi)

Cyflog: £650 y mis

Ceisiadau i:
Jo Longstaffe (029 20482907) (Cadeirydd)
Jo Durnall (029 20498139)

**kotzmuth-williams**

*architects penseiri*

Darganfyddwch gwir werth
eich cartref

- Ymgynghoriad cyntaf am ddim
- Tai newydd / estyniadau
- Ceisiadau Cynllunio
- Rheolau Adeiladu

**02920 504078**

Tŷ Regus, Bae Caerdydd, CF83 4EW
sionwilliams@kwarchitects.com
www.kwarchitects.com

# Calendr y Dinesydd

(Mae Calendr y Dinesydd hefyd ar wefan Menter Iaith Caerdydd: http://www.mentercaerdydd.org/cymraeg/digwydd.htm)

**Llun, 13 Hydref**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'Cymorth Cyntaf.' Sgwrs gan Siân Thomas, yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m.

**Llun, 13 Hydref**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Edrych ar y sêr o'r awyr: pam a sut?' Darlith gan Dr Rhodri Evans (Prifysgol Morgannwg), yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mawrth, 14 Hydref**
Theatr Arad Goch yn cyflwyno 'Letus' gan Mari Rhian Owen yn Theatr Sherman am 7.30 p.m. Tocynnau: 029-2064-6900.

**Mercher, 15 Hydref**
Cymdeithas Ty'r Cymry, 11 Heol Gordon: ' O Ddarn Ugain Punt.' Sgwrs gan Mrs Mallt Anderson, am 7.00 p.m.

**Gwener, 17 Hydref**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Lodes Lengar: Mair Richards, Darowen.' Darlith gan Yr Athro Sioned Davies, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.

**Llun, 20 Hydref**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: 'Parciau Cenedlaethol.' Sgwrs gan Elwyn Owen, ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 21 Hydref**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: 'Gwarchod y Byd.' Sgwrs gan Dr Hefin Jones, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

**Sadwrn, 25 Hydref**
Dathliad 25 mlynedd Ysgol Glantaf yng Nghlwb Criced Morgannwg, Gerddi Sophia, Caerdydd am 7.30 p.m. Tocynnau £15 ar gael drwy ffonio 07790 075306 neu ebostio aduniadglantaf@hotmail.com.

**Sul, 26 Hydref**
Oedfa agoriadol Cymdeithas Minny Street, yn Eglwys Minny Street, Cathays, am 6.00 p.m.

**Mawrth, 28 Hydref**
Cymdeithas Minny Street: 'Fy Milltir Sgwâr', yn Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 28 Hydref-Mercher, 29 Hydref**
Llwyfan Gogledd Cymru yn cyflwyno 'Ta Ra Teresa' gan Aled Jones William yn Theatr Sherman am 7.30 p.m. Tocynnau: 029-2064-6900.

**Sadwrn, 1 Tachwedd**
Merched y Wawr, Rhanbarth y De-Ddwyrain: Cyngerdd yng Nghapel Mynydd Seion, Casnewydd, gyda Côrdydd ac eitemau offerynnol. Er budd Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd a'r Cylch 2004. Manylion pellach: 029-2084-2946.

**Sadwrn, 1 Tachwedd**
Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Rhymney St, Cathays: Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00, yn cynnwys trafodaeth ar un o ddamhegion Iesu Grist. Croeso cynnes i bawb.

**Sul, 2 Tachwedd**
Cymanfa Ddathlu ar achlysur canmlwyddiant marwolaeth Joseph Parry, yn Eglwys y Crwys am 2.30 p.m. Arweinydd a chyflwynydd: Dr Dulais Rhys. Organydd: Martin Jones. Mynediad am ddim ond gwneir casgliad at Apêl Cymorth Cristnogol (HIV/Aids).

**Llun, 3 Tachwedd**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills, Llandaf, am 7.00 p.m. ar gyfer 7.30 p.m. Noson y Boneddigesau. Siaradwr gwadd: Frank Lincoln. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Tony Couch ar 029 2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk

**Gwener, 7 Tachwedd**
Cymrodorion Caerdydd: Y Cymrodorion yn cofio T. Rowland Hughes, 'y dewraf o'n hawduron', yn festri Eglwys y Tabernacl, Yr Ais, am 7.15 p.m.

**Gwener, 7 Tachwedd**
Cinio Carnhuanawc yng Ngwesty Churchills. Siaradwr gwadd: Dr Dulais Rhys, ar y testun 'Y Bachgen Bach o Ferthyr'. Manylion pellach: Catherine Jobbins (029-2062-3275) neu Nans Couch (029-2075-3625).

**Llun, 10 Tachwedd**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Sgwrs gan Yolande Davies am Opera Cenedlaethol Cymru, yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m.

**Mercher, 12 Tachwedd**
Cylch Cadwgan: Angharad Price yn siarad ar y testun 'O! tyn y gorchudd' yn Ysgol Gynradd Creigiau am 8.00 p.m.

**Iau, 13 Tachwedd**
Cylch Cinio Merched Caerdydd, yng Nghlwb Golff Radur am 7.00 p.m. ar gyfer 7.30 p.m. Noson dan ofal Lowri Gwilym. Manylion pellach: 2065-7730 neu 2062-4878.

**Iau, 13 Tachwedd**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'A ydym yn gwrando?' Y cwestiwn - ac ateb y bobl ifainc, yng Nghapel Bethel, Rhiwbina, am 7.30 p.m.

**Gwener, 14 Tachwedd**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Cyngerdd gan Gôr Plant Caerdydd (Arweinydd: Mair Robins), yn festri Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m. Casgliad at achos da.

**Llun, 17 Tachwedd**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Noson gerddorol yng nghwmni Robert Nicholls, ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.

**Llun, 17 Tachwedd**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Ysgrifennu am Fwyd.' Darlith gan Dr R. Elwyn Hughes (awdur y gyfrol ar hanes bwyd yng Nghymru, Dysgl Bren a Dysgl Arian), yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Llun, 17 Tachwedd - Iau, 20 Tachwedd**
Ysgol Glantaf yn perfformio'r sioe gerdd 'Chicago'. Manylion pellach: 029-2033-3090.

**Mawrth, 18 Tachwedd**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: 'Cymorth cynorthwyol i bersonau sydd ar goll.' Sgwrs gan Mansel Jones, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

**Mercher, 19 Tachwedd**
Cymdeithas Ty'r Cymry, 11 Heol Gordon: 'Tryweryn Trwy Archifau.' Sgwrs gan Mrs Julia Burns, am 7.00 p.m.

**Gwener, 21 Tachwedd**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Ychydig Gerddi.' Sgwrs gan yr Athro Gwyn Thomas (Bangor), yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.

**Sadwrn, 22 Tachwedd**
Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Rhymney St, Cathays: Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00, yn cynnwys sgwrs gan Dr E. Wyn James ar 'Y Garol Gymraeg'. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 29 Tachwedd**
Cynhadledd Undydd Flynyddol Canolfan Uwchefrydiau Cymry America, Prifysgol Caerdydd: 'Llythyr o America: Ymfudwyr o Gymru a'u Gohebiaeth.' Darlithoedd gan Eirionedd Baskerville, D. Leslie Davies, Dr Bill Jones, Gethin Matthews a Dr Huw Walters, yn Ysgol y Gymraeg, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd. Manylion pellach: 029-2087-4843; cymraeg@caerdydd.ac.uk.

**Sadwrn, 29 Tachwedd**
'Ser yn Salem'. Noson yng nghwmni Aelwyd CF1. 7.30pm yn Salem, Treganna. Tocynnau £5 i Oedolion, £1 i blant. Elw at Gymorth Cristnogol.

***Anfonwch fanylion at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).***

# Yr Urdd ~ Steddfota!

<u>Mawrth 11</u>
Eisteddfod Cynradd Cylch Dwyrain Caerdydd – Glantaf 1.00yp
<u>Mawrth 12</u>
Eisteddfod Cynradd Cylch Gorllewin Caerdydd – Plasmawr 1.00yp
<u>Mawrth 13</u>
Eisteddfod Cynradd Cylch Y Fro – Bro Morgannwg 9.00yp
<u>Mawrth 20</u>
Eisteddfod Sir Cynradd – Plasmawr 9.00yb
<u>Mawrth 23</u>
Dawnsio disgo a dawnsio creadigol – Lleoliad i gadarnhau
<u>Mawrth 26</u>
Eisteddfod Sir offerynnol Uwchradd – Glantaf 3.30 yp
<u>Mawrth 27</u>
Eisteddfod Sir Uwchradd – Plasmawr 9.00yb
<u>Mawrth 29</u>
Eisteddfod Gymnasteg – i'w gadarnhau

# Glantaf

Cyrhaeddodd mis Medi ar ein gwarthaf a dyma ni nôl am flwyddyn newydd ac yn croesawu disgyblion newydd i flwyddyn 7 ynghyd â phrifathrawes newydd i'n plith. Gobeithio y byddant oll yn hapus yn ystod eu cyfnod yn Ysgol Glantaf.

### Diwrnod Hybu Cymreictod

Ar y 5ed o Fedi, 2003, roedd yr holl ysgol yn cymryd rhan mewn diwrnod hanesyddol. Am y tro cyntaf erioed, cafodd y disgyblion eu rhannu'n grwpiau o ryw bymtheg. Roedd y grwpiau'n cynnwys trawsdoriad o ddisgyblion o bob blwyddyn a oedd yn perthyn i'r un llys. Pwrpas y diwrnod oedd creu cysylltiad rhwng blynyddoedd ac i hybu Cymreictod.

Cynlluniodd y gwahanol adrannau dasgau i'r grwpiau allu eu gwneud a oedd mor amrywiol â rygbi cyffwrdd, cynllunio tarian, cwestiynau mathemategol a gweithgareddau gwyddonol. Byddai'r grwpiau'n cystadlu yn erbyn grwpiau o lysoedd eraill gyda'r grwp buddugol yn ennill pwyntiau i'w llys. Enillwyd cystadleuthau'r dydd gan Lys Illtud ond eilbeth oedd cystadlu mewn gwirionedd gyda'r pwyslais ar hybu Cymreictod.

Bu'r diwrnod yn llwyddiant ysgubol ag ystyried mai amser byr oedd ar gael i baratoi, gyda'r disgyblion yn symud yn rhwydd o gwmpas yr ysgol. Wedi diwrnod o hwyl a sbri, aeth yr holl ddisgyblion adre i orffwyso dros y penwythnos yn barod i ddychwelyd i fywyd ysgol cyffredin.

**Daniel Hefin**



### Gŵyl Traws Gwlad

Cynhaliwyd Gŵyl Traws Gwlad flynyddol yr ysgol ar yr 11eg o Fedi ar hyd llwybr yr Afon Taf. Braf oedd gweld mwyafrif y disgyblion yn cymryd rhan, er gwaetha'r glaw, ac yn cystadlu'n frwd. Rhedwyd y cwrs gyflymaf gan David Locke o flwyddyn 11 ac o Lys Dyfrig. Enillwyd yr wyl gan Lys Illtud gyda Llys Dewi'n ail, Llys Dyfrig yn drydydd a Llys Teilo'n bedwerydd. Llongyfarchiadau i bawb.

### Trip i America!

Llongyfarchiadau gwresog i Luke Pearce a Rhian Owens o flwyddyn 13 ar ennill trip i ganolfannau NASA yn Tecsas a Fflorida mewn cystadleuaeth gan Gyngor Caerdydd. Llwyddodd y ddau mewn cystadleuaeth boblogaidd i greu prosiect a dylunio gwefan ar wahanol agweddau yn ymwneud â'r gofod gan ganolbwyntio'n bennaf ar y blaned Mawrth. Mwynhewch y trip!

### Taith De'r Affrig Haf 2003

Wedi blwyddyn o drefnu, ymarfer a chasglu arian brwd, ar y 16eg o Orffennaf eleni fe gychwynnom ni, Carfan Rygbi dan 16 Ysgol Glantaf, ar ein taith i Dde'r Affrig. Roeddem yn bedwar ar hugain o ddisgyblion o dan arweinyddiaeth ein capten, Owain Brown, a thri o athrawon – Mr Dai Williams, Mr Huw Llewelyn a Mr Meurig Jones.

Ar ôl dau ddiwrnod o flasu amryw ddiwylliannau a thraddodiadau'r wlad, chwaraewyd y gêm gyntaf yn erbyn Ysgol Bechgyn Pretoria o flaen torf frwdfrydig o ddisgyblion o'r ysgol honno. Yn anffodus colli a wnaethom fel a ddigwyddodd dair gwaith eto yn ystod y daith yn erbyn ysgolion eraill. Llwyddom i ennill dwy gêm yng Nghystadleuaeth Rygbi Rhyngwladol Stellenberg yn Cape Town.

Ni ellir dweud na roddwyd gêm galed i bob un o'n gwrthwynebwyr, a nifer o'n chwaraewyr yn serennu. Ond rhaid cyfaddef, hyd yn oed fel pencampwyr Ysgolion Sir Caerdydd, roeddem wedi'n syfrdannu gan safon aruthrol y rygbi yn ysgolion y wlad.

Wrth deithio o gwmpas, cawsom ein haddysgu am anifeiliaid gwyllt y wlad gan ein harbenigwr Swoleg, Mr Llewelyn. Cafwyd ymweliad â Table Mountain i weld gwledd o olygfeydd bythgofiadwy. Cawsom ymweld hefyd â Robben Island yn Cape Town ble y carcharwyd Nelson Mandela am un flynedd ar bymtheg.

Ond cyn i ni sylwi, roedd hi'n amser dychwelyd gartref i Gymru, ein bagiau'n llawn anrhegion, a llond cof o atgofion melys.

**Gruffudd Davies a Rhys Meggy**

# Yr Urdd

### Croeso

Gyda hanner tymor yr Hydref yn agosáu, mae'r Urdd unwaith eto yn cynnig nifer o weithgareddau i blant cynradd a uwchradd. Yn gyntaf hoffem estyn croeso cynnes i Elenid Hatcher, Swyddog Datblygu cynorthwyol Caerdydd a'r Fro sydd wedi ymuno â chriw talaith y De. Daeth Cyngor Sir Caerdydd a'r Urdd ynghyd i ariannu ei swydd o weithio gyda phlant cynradd Saesneg i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mi fydd hi'n gobeithio sefydlu nifer o glybiau ac adrannau ledled y sir ymhlith ysgolion sydd â diddordeb.

### Byd y bêl

Mae poblogrwydd y clybiau pêl-droed dal i gynyddu, gyda thîm newydd yn cystadlu dan faner yr Urdd o dan 8 oed. Yn ogystal â hynny, mae tîm 8a yn cael ei noddi gan fwyty *Le Gallois* sydd yn gyffrous iawn i'r chwaraewyr. Hyd yma, mae gennym ddau dîm o dan 8 oed ac un tîm i'r rhai o dan 9,10,11,12 ac 14 oed. Daw'r holl chwaraewyr o ysgolion cynradd Caerdydd yn ogystal â'r ddwy ysgol gyfun, Glantaf a Phlasmawr, ac mae dros 100 o blant ynghlwm wrth y fenter. Mae croeso mawr i blant o bob oed i ymuno â ni bob bore Sadwrn ar Gaeau Llandaf.

### Hwyl hanner tymor

Mi fydd plant ysgolion cynradd Caerdydd a'r Fro yn mynd amdani ar 15 Hydref trwy gymryd rhan yn ein cystadleuaeth trawsgwlad. Cynhelir y gystadleuaeth ym Mharc Trelái.

Yn ystod hanner tymor, rydyn ni wedi trefnu nifer o weithgareddau i bawb. I ddechrau'r gwyliau, bydd taith i blant uwchradd i barc antur "Thorpe Park" yn Lloegr. Mi fydd cyfle i blant cynradd gymryd rhan mewn ysgol bêl-droed am dridiau ar 28, 29 a 30 Hydref. Hefyd, bydd gweithdy dawns i blant cynradd yng Nghanolfan yr Urdd ar 28 a 29 Hydref. I gloi'r wythnos, caiff plant cynradd fwynhau tridiau o hwyl a sbri yn Llangrannog. Bydd cyfle i arbrofi ar y llethrau sgïo, nofio a rasio ceir ymhlith pethau eraill.

## Noson Blasu Gwin

Yn dilyn llwyddiant y Noson Blasu Gwin fis Gorffennaf, cynhaliwyd noson lwyddiannus arall yn Le Gallois, Nos Lun, Medi'r 29ain. Fe fydd cyfle i chi flasu a phrynu gwinoedd Nadoligaidd a champagne yn Noson Blasu Gwin nesaf y Fenter ar 1 Rhagfyr, eto yn Le Gallois. Cysylltwch â'r swyddfa am fanylion.

## Clwb Rygbi Merched Menter Caerdydd

Mae bron i 20 o ferched wedi ymuno â Chlwb Rygbi Merched Caerdydd erbyn hyn. Maent yn ymarfer yn wythnosol ar Faes y Deiament, yn yr Eglwys Newydd. Mae'n gyfle gwych i gadw'n heini a chymdeithasu. Mae llawer o sylw wedi bod yn barod - pwy a ŵyr, efallai mewn blynyddoedd i ddod bydd merched o Glwb Rygbi Merched Menter Caerdydd yn chwarae i Gymru yng Nghwpan y Byd!!



*Sesiwn Ymarfer y Clwb Rygbi*

## Clwb Rhedeg Menter Caerdydd

Bwriad Clwb Rhedeg Menter Caerdydd yw cyfarfod yn wythnosol i redeg ar lwybrau penodol o amgylch Caerdydd. Mae amrywiaeth o Gymry wedi ymuno â'r Clwb - o Redwyr Marathon profiadol i bobl sydd am ddechrau rhedeg er mwyn cadw'n heini! Mae'r Clwb yn cyfarfod yn wythnosol am 6.30 yr hwyr tu allan i Ganolfan Chwaraeon Gerddi Soffia. Croeso cynnes i aelodau newydd.



*Criw'r Clwb Rhedeg yn barod i fynd!*




Blas ar winoedd Le Gallois

## Trip Siopa i Gaerfaddon

Mae'r Fenter yn bwriadu trefnu trip diwrnod i Gaerfaddon, Ddydd Sadwrn, 29 Tachwedd - cyfle gwych i chi siopa Nadolig! £10 yw pris y tocynnau. Fe fydd y bws yn gadael Caerdydd am 9 o'r gloch y bore ac yn dychwelyd fin nos erbyn tua 7. I gadw'ch lle ar y bws, cysylltwch â'r swyddfa.

O hoffech wybodaeth am unrhyw un o weithgareddau Menter Caerdydd, neu os oes gennych syniad am weithgaredd posib, galwch i mewn i'r swyddfa ar Heol yr Orsaf yn Ystum Taf, neu cysylltwch ag Angharad Thomas trwy ffonio 029 20565658 neu ebostio angharadthomas@mentercaerdydd.org

# LLWYFAN GOGLEDD CYMRU

Mis Ebrill eleni fe wahanwyd Cwmni Theatr Gwynedd oddi wrth Theatr Gwynedd i greu cwmni newydd - Llwyfan Gogledd Cymru. Bydd gan y cwmni newydd gyfrifoldeb dros ddarparu arlwy theatrig ar gyfer y gogledd yn ogystal â mynd ar daith yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. *Ta ra Teresa* fydd cynhyrchiad cynta'r cwmni newydd hwn.

Mae'r ddrama wedi ei seilio ar hanes Romeo a Juliet, ac wedi ei lleoli ym Mlaenau Ffestiniog. Stori dau gariad ifanc, un o aelwyd Gymraeg a'r llall o aelwyd Saesneg sy'n penderfynu priodi gyda chanlyniadau erchyll.

Mae *Ta ra Teresa* gan Aled Jones Williams, un o'n dramodwyr mwyaf cyffrous yn ddrama ysgytwol am fewnlifiad - testun sydd ar wefusau'r genedl gyfan. Fe enillodd y wobr y Ddrama Gymraeg Orau 2002 (New Welsh Review) a denu canmoliaeth sylweddol yn y wasg pan lwyfannwyd hi am y tro cyntaf gan hen Gwmni Theatr Gwynedd yn Hydref 2002.

Y cast yw Owen Arwyn *(Rownd a Rownd)*, Michael Atkinson *(Brookside)*, Rhian Cadwaladr *(Porc Peis Bach)* a Tammi Gwyn *(Amdani)*. Ian Rowlands yw'r Cyfarwyddwr.

***Y daith yn y de-ddwyrain...***

**28-29 Hydref**
**Theatr y Sherman, Caerdydd**

**30 Hydref**
**Cwmaman Institute, Cwm Cynon**



# Yn eu Helfen! ELFEN

### Cwmni lleol yn ennill bri rhyngwladol

Mae Elfen, yr asiantaeth ddylunio hynod lwyddiannus o'r brifddinas, wedi ei dewis i ymddangos mewn arddangosfa ryngwladol o'r dylunio graffeg gorau yn y byd. Dyma'r cwmni cyntaf o Gymru i ymddangos ochr yn ochr â goreuon y byd dylunio rhyngwladol mewn cyhoeddiad a ystyrir yn eang fel 'beibl' y byd dylunio - un o gyfrolau Rockport sy'n rhoi sylw i'r Dylunio Llyfrynnau Gorau. Dewiswyd ymgais ddwyieithog Elfen am ei bod yn 'ffres a hyderus'.

"Mae derbyn y fath anrhydedd yn gyffrous iawn, yn enwedig gan mai ni yw'r asiantaeth gyntaf o Gymru i gael ei dethol trwy broses ddewis hynod gystadleuol Rockport," meddai Guto Evans, un o bartneriaid y cwmni yn y Bae. "Mae hon wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus i'n proffil rhyngwladol, gan fod ein gwaith hefyd wedi cael sylw yng Ngwyl Biennale Fenis yn ddiweddar. Y ni ddyluniodd y catalog ar gyfer yr artistiaid Cymraeg sy'n cael sylw blaenllaw yno".

Mae gwaith yr asiantaeth eisoes wedi creu argraff ar Malcolm Garrett (sydd wedi dylunio i bobl fel y Buzzcocks, Boy George a Peter Gabriel), un o feirniaid cystadleuaeth uchel ei bri, McNaughton Review. Enillodd Elfen gategori 'Dylunio Taflen' a chawsant Glod Uchel yng Ngwobrau Dylunio Dwyieithog Cymru 2003. Mae rhestr cwsmeriaid Elfen yn mynd o nerth i nerth ac mae'n cynnwys Cymru yn Biennale Fenis, S4C, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Sgrin Cymru, BBC Cymru, Menter a Busnes, Awdurdod Datblygu Cymru, Artes Mundi ac Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru. Sefydlwyd Elfen ym 1997, ac mae wedi creu delweddau pwerus a chyfareddol ar gyfer pob dim, o danciau pysgod a roc i ddeinosoriaid ac ysgariad!

Mae'r cwmni newydd ehangu i adeilad newydd ym Mae Caerdydd - sef warws wedi ei ailwampio ger Stryd James - lle maent ar fin dechrau gweithio ar ddeunydd i hyrwyddo Gwyl Sgrin Caerdydd 2003.
www.elfen.co.uk

## Beicio dros Gymru

Ar 21 Awst eleni, dechreuodd tri gŵr dewr, Leighton James o Gyncoed, Caerdydd, Jeff Collins o Ddinas Powys a Phil Ashman o'r Rhws, ar daith seiclo trwy Gymru i godi arian ar gyfer Sefydliad Dyslecsia Cymru. Y man cychwyn oedd Amlwch ar ddiwrnod braf ond gwyntog. Ymlaen i Borthmadog, Aberystwyth, Rhaeadr Gwy, dros y Bannau ac i lawr i'r Rhws - sef man mwyaf deheuol Cymru. Roedd Leighton, Jeff a Phil wedi bod yn chwysu chwartie ers misoedd er mwyn sicrhau eu bod yn llwyddo i gwblhau 220 o filltiroedd mewn pum diwrnod, ac roedd eu gwragedd yno i'w hannog ar hyd y daith. "Profiad rhyfedd iawn oedd cael sgwrs gyda Hywel Gwynfryn yn fyw ar Radio Cymru wrth seiclo ar hyd Pen-y-pass ger Llanberis", meddai Leighton James.

Bu eitem hefyd am y Sefydliad Dyslecsia a'r seiclo noddedig ar raglen'Pnawn Da' ar S4C ddechrau mis Medi. Erbyn hyn gallwn gyhoeddi bod y seiclo noddedig wedi codi £1500 tuag at addysg plant a dyslecsia yn y brifddinas.

Agorwyd canolfan Sefydliad Dyslecsia yng Nghaerdydd bedair blynedd yn ôl ac mae'n cynnig asesu, dysgu a hyfforddiant i athrawon. Mae dros 150 o blant, myfyrwyr ac oedolion Caerdydd a'r Fro yn derbyn gwersi arbenigol gan athrawon y ganolfan. Eleni, agorwyd Canolfan Ddysgu yng Nghaerfyrddin sy'n gwasanaethu plant Sir Gâr, Sir Benfro a Cheredigion. Mae Sefydliad Dyslecsia (Dyslexia Institute) yn bodoli ers 1972 ac mae bellach yn cael ei gydnabod fel yr awdurdod mwyaf yn y maes.

Elusen addysgol sy'n dibynnu ar roddion yw Sefydliad Dyslecsia, ac mae nifer o enwogion â dyslecsia yn barod i hyrwyddo gwaith y Sefydliad ee Susan Hampshire, Robbie Williams, Duncan Goodhew, Tom Cruise, Michael Heseltine a'r awdur Ken Follett. Am fwy o wybodaeth ynglyn â dyselcsia cysylltwch â Janet Catrin James, Y Ganolfan Ddyslecsia, 14 - 18 City Road, Caerdydd. Ffôn: 029 2048 1122



Yn y llun gwelir Paula a Phil Ashman, Leighton a Janet James a Jeff a Viv Collins ar ddechrau'r daith ar y Fam Ynys.

## Côr Canna (o dudalen 1)

Gerdd Dant a gynhelir yn Aberystwyth ar 1 Dachwedd. Fel sy'n nodweddiadol o griw Aber - Bethan Bryn a Rhiannon Ifans - mae'r darn gosod eleni yn eithaf arbrofol, sef 'Stori Gwyddno' a hanes Cantre'r Gwaelod gyda chyfle i'r corau arbrofi gyda'r gosodiad a hepgor geiriau pe dymunant! Bydd hi'n ddiddorol gweld y gystadleuaeth. Byddwn yn cadw cyngerdd yng Nghasnewydd a Chrymych y tymor hwn hefyd a chyngherddau yn Llanbed a Chapel Bangor y tymor nesaf. Y Pasg nesaf, byddwn yn mynd ar daith i dde Sbaen am wythnos, i ŵyl gerddorol yno.

Mae hen edrych ymlaen at hynny ac rydym wrthi'n brysur yn codi arian at y daith trwy ein 'Car Boot Extravaganza' bob bore dydd Sul, a bydd ein raffl fawr yn ymddangos yn fuan felly byddwch yn barod i fynd i'ch pocedi!

Felly, be' amdani? Be am ymuno â ni? Cewch gyfle i roi'r byd yn ei le, digonedd o hwyl a chanu wrth gwrs! Mae cymdeithasu yn elfen bwysig a byddwn yn trefnu nosweithiau i fynd allan bob tymor, ac yn cael llawer o hwyl wrth fynd i ffwrdd i gystadlu. Os am ymuno, neu os ydych am drefnu cyngerdd, cysylltwch â Delyth Medi ar 029 2025 4468.

### Tri Dyn Bach ar Ôl

Drwy ryw amryfusedd ni soniwyd yn y rhifyn Medi o'r Dinesydd am lwyddiannau ym myd dawnsio gwerin yn Eisteddfod Maldwyn a'r Gororau eleni gan Barti Dawns Werin 'Y Twrch Trwyth' dan arweiniad Dewi a Janet Rhisiart a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth Tlws Cymdeithas Ddawns Werin Cymru, a Pharti Dawns Cwmni Dawns Werin Caerdydd dan arweiniad Rhodri a Chris Jones yn ail yn y gystadleuaeth parti dawns dan 25 oed, ac Elgan Morgan yn drydydd yng nghystadleuaeth clocsio i fechgyn. Llongyfarchiadau hwyr iddyn nhw.

## Ar y CYD... yng ngofal Lynne Davies

Croeso 'nôl i flwyddyn newydd o ddysgu! Mae'n flwyddyn gyffrous i mi, gan 'mod i'n mynd yn ôl i fod yn fyfyrwraig. Rwy'n mynd i wneud cwrs i ddysgu Cymraeg mewn ysgolion uwchradd. Ydy hynny'n ddoeth? Mae hanner fy ffrindiau yn meddwl bod e'n syniad da, mae'r lleill yn meddwl 'mod i'n wallgo'! Gawn ni weld...

Os nad yw hynny'n ddigon o bwysau, mae Cwtsh a finnau newydd symud tŷ. Bob tro rwy'n symud tŷ rwy'n dweud "byth eto", ond y tro 'ma rwy'n ei feddwl mewn gwirionedd. Dechreuais i geisio gwerthu'r fflat yn Llundain ym mis Hydref diwethaf. Roedd ar fin mynd trwodd pan welodd yr archwiliwr bod problem gyda'r wal, wedyn roedd rhaid aros am hir i'r ail brynwr gael ei forgais, yna roedd y bobl ar ochr arall y llinell yn bygwth tynnu allan... Ond 10 mis yn ddiweddarach dyma ni! Mae'r lle'n dal yn llawn blychau, ond mae'n symud ymlaen, ac mae'r gath yn dwlu ar y lle gan fod cae mawr y tu ôl i'r ardd lle mae hi'n gallu mynd i "fforio".

Mewn eiliad sbar yr haf 'ma darllenais i drydydd llyfr yng nghyfres Blodwen Jones gan Bethan Gwanas. Dwi ddim yn cofio'r teitl, ac mae'r llyfr mewn blwch yn rhywle, ond mae'r tri yn ddoniol iawn ac yn hawdd eu darllen gan eu bod wedi eu sgwennu ar gyfer dysgwyr. Ewch i'ch siop llyfrau Cymraeg nawr...

**Geirfa**
cyffrous - *exciting*
myfyrwraig - *(female) student*
ysgol uwchradd - *secondary school*
doeth - *wise*
wallgo' - *crazy*
byth eto - *never again*
rwy'n ei feddwl mewn gwirionedd - *I really mean it*
ar fin mynd trwodd - *about to go through*
archwiliwr - *surveyor*
morgais - *mortgage*
bygwth - *to threaten*
blwch (blychau) - *box(es)*
symud ymlaen - *to make progress*
fforio - *to explore (like David Livingstone!)*
cyfres - *series*
doniol - *amusing*



**YSGOL GYMRAEG BRO EIRWG**
Heol Ridgeway, Tredelerch, Caerdydd CF3 4AB
Ffôn: 029 20 777 124 Ffacs: 029 20 360 103

**CYNORTHWYDD ATHRAWON**
**SWYDD TAN DDIWEDD Y FLWYDDYN**
**ADDYSGOL 2003/2004**
**YN Y MAN CYNTAF**
**CYFLOG: £10,668**

Gwahoddir ceisiadau am y swydd uchod, i gychwyn ar y gwaith cyn' gynteb a phosib.

Cysylltwch â'r Pennaeth, Mrs. Gaynor Williams, am fwy o fanylion os oes gennych ddiddordeb.


## Y Border Bach
gan Hwn a Hon



Os ewch chi o gwmpas gerddi Caerdydd yr amser yma o'r flwyddyn fe welwch fod 'na un blodyn yn eithaf cyffredin, sef y 'Japanese Anemone'. Mae sawl math o blanhigyn â'r enw 'anemone' neu blodyn y gwynt. Mae'r Anemone nemorosa yn flodyn bach gwyn sy'n blodeuo yn y gwanwyn mewn mannau coediog cyn bod y coed uwch eu pen yn deilio. Yna mae'r math o flodyn fel pabi, e.e. Anemone de Caen, sydd i'w weld yn nes ymlaen yn yr haf a chanddo flodau mewn lliwiau gemog, llachar. Ond mae'r Anemone Siapaneaidd (er nad yw'n hanu o Siapan) yn blanhigyn tal tua 3-4 troedfedd ac yn blodeuo o Awst tan y rhew cyntaf. Mae ganddo goesau hir, main gyda dail toredig gwyrdd golau neu dywyll a blodau mewn lliwiau pinc neu gwyn, ond i gyd â llygad melyn. Mae'n werth chwilio am y mathau ag enwau arnynt, megis September Charm - pinc, golau, neu Hadspen Abundance - pinc tywyll. Fy ffefryn i o'u plith yw'r math gwyn 'Honorine Jobert'. Mae ganddo flodyn sengl, syml, glân yr olwg, ac mae'n edrych yn dda yn erbyn cefndir o dyfiant gwyrdd tywyll.

Fe dyfant bron mewn unrhyw dir, mewn haul neu ychydig gysgod. Os oes gormod o gysgod fe wnânt wthio eu hunain ymlaen i'r haul ymhen amser. Os ydynt mewn lle da gallant ledu yn reit gyflym ac efallai y bydd angen eu ffrwyno. Maent yn edrych yn dda gyda blodau eraill sydd ar eu gorau yr un adeg, fel yr asters, neu'r redum, a'r penstemon mewn lliwiau glas a phinc, ac yn newid o'r melyn a'r oren sy'n fwy cyffredin yn yr hydref cynnar.

Os ydych am rannu eich planhigion yr hydref neu'r gwanwyn yw'r amser gorau i wneud hynny, ond fe allant gymryd peth amser i ail-gynefino ar ôl hynny.

# Letus

Cwmni theatr arad goch

**gan Mari Rhian Owen**

**Drama gomisiwn yr Eisteddfod ar daith**

"Mae'r actio yn y ddrama hon yn arbennig. Mae Sara Harris-Davies yn ymroi i'r cymeriad yn llwyr. Mae'r un yn wir am berfformiadau Meilyr Siôn ac Iwan Tudor" (Elin Wyn Davies - BBC)

Bydd cyfle i'r Dinasyddion fwynhau drama gomisiwn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau yn Theatr y Sherman cyn hir. Mae 'Letus', gan Mari Rhian Owen, yn dilyn taith meddwl dynes a fu'n crwydro plwyfi gogledd Maldwyn am flynyddoedd. Trwy gyfrwng iaith delynegol, alawon gwerin a cherddoriaeth glasurol, cawn hanes cymeriad annwyl a lliwgar a'i bywyd carwriaethol anarferol! Mae holl gwestiynau mawr bywyd yn y ddrama hon, wrth i ni wynebu marwolaeth, colli cariad, rhannu pryderon a hel atgofion.

Jeremy Turner, Cyfarwyddydd Artistig Cwmni Theatr Arad Goch yw cyfarwyddwr y ddrama. Sara Harris-Davies, brodor o Sir Gaernarfon sydd bellach yn byw ym Mhenarth, sy'n chwarae'r brif rhan. Dechreuodd ei gyrfa yn Aberystwyth gyda Theatr Crwban, ac mae hi wedi gweithio gydag Arad Goch sawl gwaith yn y gorffennol heb sôn am lu o raglenni teledu megis Porc Peis Bach. Yr actorion eraill yw Meilyr Siôn (Dan y Wenallt, Dirgelwch yr Ogof, Pobol y Cwm) ac Iwan Tudor (Morus y Gwynt ac Ifan y Glaw, A55) - gyda'r naill yn byw yng Nghaerdydd a'r llall yng Nghaerffili.
Theatr y Sherman, 7.30 o'r gloch nos Fawrth 14 Hydref.
Swyddfa docynnau: 029 2064 6900

# Annwyl Olygydd...

**CYMDEITHAS CYN-DDISGYBLION GLANTAF**

Annwyl Olygydd,

Ychydig wythnosau sydd ar ôl cyn y bydd y gymdeithas yn cynnal noson i ddathlu chwarter canrif ers sefydu'r ysgol, ac eisoes mae'r digwyddiad wedi denu diddordeb o bedwar ban byd! Nid yn unig bydd y dathliad yn gyfle i gyn-ddisgyblion ac athrawon ddod at ei gilydd ond bydd modd i bawb fydd yno hefyd ennill gwaith neu gynnyrch arbennig sy'n gysylltiedig a rhai ohonyn nhw. Mae croeso i gyn-ddisgyblion o bob blwyddyn ynghyd ag athrawon o'r gorffennol a'r presennol ymuno a'r dathliadau yng Nghlwb Criced Morgannwg, Gerddi Soffia, Caerdydd, nos Sadwrn Hydref 25ain 2003. Pris y tocynnau yw £15 ( sy'n cynnwys bwffe ac adloniant) neu £20 os hoffech ychwanegu cyfraniad at y gymdeithas. Mae modd prynu tocynnau o hyd drwy anfon siec yn daladwy i 'Cymdeithas Cyn-ddisgyblion Glantaf ' at:

Y Trysorydd, 54 Angus Street, Y Rhath, Caerdydd CF24 3LY

Neu'n uniongyrchol trwy gysylltu â :

Eleri Morgan 07860 254106 neu

eleri_morgan_2000@yahoo.co.uk

Non Jones 07790 075306 neu nonjones@yahoo.com

Sian E. Thomas 029 20 485043

Siwan Kemp siwan_kemp@yahoo.com

**CAWDEL CYFIEITHU!**

Annwyl Ddinesydd,

Darllenais lythyr yn y *Western Mail* yn ddiweddar gan rywun oedd wedi sylwi ar y cyfieithiad o 'Pear Tree Depot' fel 'Depo Pear Tree' ar gylchfan Coryton. Gofyn oedd y person pa athrylith ieithyddol oedd yn gyfrifol, gan wahodd y darllenwyr i gofnodi enghreifftiau eraill. Gan nad wyf yn dymuno ysgrifennu i'r papur hwnnw, rhannaf ffrwyth fy ymchwil drylwyr dros gyfnod hirfaith, trist iawn feri sad gyda darllenwyr *Y Dinesydd*. Dyma ymdrechion rhai o archfarchnadoedd Caerdydd a'r cyffiniau ar gyfieithu dog food a cat food.

Bwyd y Ci - Tesco Extra

Bwyd Y Ci - Asda, Casnewydd

Bwyd Ci - Asda, Pentwyn

Bwyd i'r Gi - Asda, Caerffili (as in gath ynte!)

Bwyd cwn - Sainsbury's, Colchester Av.

Bwyd i'r ci - Tesco, Croes Cwrlwys

Bwyd I'r Ci - Asda, Bae Caerdydd

Bwyd câth - Safeways, Caerfyrddin

Bayd tun i'r gath - Tesco, Casnewydd

Bwydd Y Gath - Tesco, Penarth

Oes rhagor?

Jack Russell

(Os gwyddoch am enghreifftiau tebyg, byddai Cen Williams yn falch o glywed oddi wrthoch chi. Ei gyfeiriad yw 27 Llantrisant Drive, Llandaf. CF5 2PG.)

## CERDDI FAN HYN

83, Rhoshendre, Waunfawr,

Aberystwyth, SY23 3PX

e-bost: catrin@catrinb.fsnet.co.uk

Annwyl Olygydd

Ar hyn o bryd, rwyf i yn y broses o baratoi blodeugerdd o gerddi am Gaerdydd, fel rhan o gyfres Gwasg Gomer 'Cerddi Fan Hyn'. Y bwriad yw cynhyrchu cyfrol o gant o gerddi am y ddinas, yn adlewyrchu nifer o wahanol agweddau o'r lle. Bydd y gyfrol yn cael ei lansio yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghasnewydd y flwyddyn nesaf. Yn amlwg, mae llawer o feirdd gorau ein cenedl wedi canu am y ddinas ar hyd y blynyddoedd - boed yn frodorion neu fel arall; wedi'r cyfan, mae Caerdydd, ein prif ddinas, yn perthyn i bob un ohonom ni, ac mae gan bob un farn amdani ac agwedd tuag ati.

Hoffwn wahodd eich darllenwyr i enwebu cerdd neu gerddi i'w cynnwys yn y gyfrol. Gall y cerddi fod o waith beirdd cydnabyddedig neu yn gerddi nad ydynt wedi ymddangos o'r blaen mewn print - yn wir gwahoddir cerddi newydd i sefyll ochr yn ochr â champweithiau'r enwogion; mae croeso i drigolion y ddinas anfon cynnyrch gwreiddiol i'w ystyried ar gyfer y gyfrol. Nid wyf yn gwarantu y caiff pob dewis ei gynnwys, ond byddai'n ddiddorol gallu adlewyrchu barn rhai o drigolion Caerdydd yn y gyfrol.

Gofynnir i unrhyw un sydd â diddordeb i anfon unrhyw awgrymiadau neu gerddi gwreiddiol ataf i'r cyfeiriad isod erbyn diwedd mis Rhagfyr eleni.

Gan obeithio clywed gan nifer o'ch darllenwyr dros y misoedd nesaf.

Yn gywir iawn,

**Catrin Beard**

**EISTEDDFOD YR URDD 2005**

Hoffwn dynnu eich sylw at y ffaith y bydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn cael ei chynnal yng Nghanolfan y Mileniwm yn 2005. Rydym ar hyn o bryd yn chwilio am garedigion i gyfrannu prif wobrau'r ŵyl. Os oes diddordeb gydag unigolyn, deulu neu sefydliad fod yn gysylltiedig gydag un o'r prif wobrau a fyddech gystal â chysylltu â Swyddfa'r Urdd yng Nghaerdydd erbyn Hydref 31, 2003 trwy ffonio 029 20 803360 neu ebostio nicola@urdd.org

Yn gywir,

**Heulyn Rees**

Trefnydd yr Eisteddfod

**DATHLU'R CHWARTER CANRIF YN CHICAGO!**

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Heol y Bont, Ystum Taf,

CAERDYDD CF14 2JL

Annwyl Syr,

Mae'n arferiad erbyn hyn i lwyfannu sioe gerdd bob yn ail flwyddyn yma yn Ysgol Gyfun Glantaf, ac mae'r amser wedi dod unwaith eto i mi fynd ati i gyflwyno 'extravaganza' mawr cerddorol a dramatig arall. Rydym eisoes wedi dechrau ar yr ymarferion, ac mae'r sioe yn un apelgar, lliwgar a llawn hwyl sy'n cynnwys cast o 160 o ddisgyblion. Fe fydd CHICAGO yn cael ei pherfformio ar 17-20 Tachwedd, yn neuadd yr ysgol fel rhan o'n dathliadau pen-blwydd yn 25 oed!

Ein gobaith yw manteisio ar garedigrwydd busnesau a chymdeithasau lleol i'n helpu gyda chostau llwyfannu sioe o'r fath gan fod gwisgoedd, set, golau a sain yn ddrud dros ben, heb sôn am yr holl offer a'r costau argraffu. Mawr obeithiwn y gallwch ein helpu yn hyn o beth. Waeth pa mor fychan eich cyfraniad, mi fyddwn yn hynod ddiolchgar i chi am unrhyw gefnogaeth. Wrth gwrs, fe gewch hysbys amlwg yn ein rhaglenni a fydd ar werth i gyd-fynd â'r perfformiad.

Os oes gennych ddiddordeb i noddi'r sioe, neu os hoffech ragor o fanylion, cysylltwch â mi trwy ffonio 2033 3090 neu 2083 8877. Fel arall, anfonwch siec yn uniongyrchol ataf i'r ysgol, gan amgáu hysbyseb pwrpasol a fydd i'w gweld yn rhaglen y sioe [o ran syniad i chi, £50 yw cost hysbyseb hanner tudalen, a £100 am dudalen gyfan]. Gwnewch eich siec yn daladwy i 'Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf'.

Mawr hyderwn y gallwch ein helpu i wneud y sioe yn un fythgofiadwy.

Yn gywir iawn, a chyda diolch,

**Delyth Medi Lloyd**

Pennaeth yr Adran Gerddoriaeth.

# GWRES GWYN

***Oes rhywun wedi gwasanaethu eich bwyler eleni?***

**Nac oes?**

Cysylltwch â:

## GWYN RHYS JONES

Gosodwr Cofrestredig Rhif 190209

82 Pendwyallt, Yr Eglwys Newydd

**07974 80 30 89**

gosod a symud rheiddiaduron, adnewyddu bwyleri ac ystafelloedd ymolchi, diweddaru systemau ac unedau rheoli, darganfod a datrys namau mewn systemau, tystysgrifau diogelwch



Ysgol Gyfun Gymraeg
**GLANTAF**

## Swydd Weinyddol

*Dyletswyddau:*
Dyletswyddau arferol swyddfa ysgol, yn cynnwys sgiliau teipio a chyfrifiadurol.

*Oriau'r Swydd:*
30 awr yr wythnos, 40 wythnos y flwyddyn. Bydd y gwyliau'n cyd-redeg â gwyliau'r ysgol.

*Cyflog:*
Gradd 2-4, pwyntiau 11-24, £9014 - £11,704

*Dyddiad cychwyn:*
Cyn gynted â phosib.

*Ceir manylion pellach a ffurflen gais drwy ysgrifennu neu ffonio:*
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf,
Ystum Taf, Caerdydd, CF14 2JL.
Rhif ffôn: 029 2033 3090

*Rydym yn rhwymedig i gyfle cyfartal*



**Eglwysi Annibynnol Cymraeg Caerdydd, Casnewydd a Phenarth**

## SWYDDOG IEUENCTID

Mae'r Eglwysi uchod, 4 i gyd, yn awyddus i benodi Cristion brwdfrydig i weithio gyda phlant a phobol ifainc yr Eglwysi.

Swydd rhan-amser, oddeutu 18 awr yr wythnos.

Cyflog: £15,000 y flwyddyn pro rata.

Am ddisgrifiad swydd cysyllter â -
Elinor Patchell, 2 Westbourne Cres.,
Caerdydd CF14 2BL

Am sgwrs anffurfiol, cysyllter â'r Parch. Alun Tudur 029 20 490582

Dyddiad cau: Hydref 30.
Cyfweliadau, canol Tachwedd.
Swydd i ddechrau Ionawr 2004.



**Mae gan Fentrau Morgannwg Gwent 7 set o Offer Cyfieithu ar y Pryd is-goch i'w llogi ar gyfer cyfieithu cyfarfodydd cyfrwng Cymraeg**

Mae gwasanaeth cyfieithu Mentrau Morgannwg Gwent yn darparu gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd a Chyfieithu Ysgrifenedig ar gyfer Grwpiau Gwirfoddol lleol, Elusennau ac yn fasnachol.

*Am fwy o wybodaeth cysylltwch â*
Gwynallt Bowen, Cyfieithydd Cymunedol,
Menter Iaith, Menter y Cymoedd,
Y Gadlys, Aberdar CF44 8DL.
Ffôn: (oi685) 877183
e-bost: gwynalltbowen@menteriaith.org